Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru - Tendr Cyfieithu ar y Pryd 2016

Ysgrifennaf atoch i ofyn i chi gyflwyno dyfynbris ar gyfer darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elai. Bydd gofyn darparu gwasanaeth ym Mhafiliwn yr Eisteddfod yn ystod y cystadlu ac yn yr Annedd Wen lle cynhelir derbyniadau a chynadleddau i'r wasg.

Amlinellir isod y gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig ar dendr.

Y Gwasanaeth i'r Cyhoedd

- Bydd angen i chi ddarparu 100 o glustffonau is-goch.
- Yn ystod y dydd bydd staff yr Urdd yn dosbarthu'r clustffonau i'r cyhoedd yn y Ganolfan Groeso am ernes o £10.
- Bydd pob benthyciwr yn cael taflen wybodaeth / ddigolledu i'w harwyddo, a chaiff y clustffonau eu dychwelyd i'r Ddesg Ymholiadau neu Swyddfa'r Eisteddfod lle ad-delir yr ernes.
- Ar gyfer y cystadlu nos, dosberthir y clustffonau gan staff yr Urdd o'r Ganolfan Groeso am ernes. Staff yr Urdd fydd yn gyfrifol am gadw'r offer dan glo a'u gwefru dros nos.
- Byddwn yn darparu rhifau ffôn staff y Ddesg Ymholiadau a Swyddfa'r Eisteddfod rhag ofn y bydd arnoch angen cysylltu â nhw.
- Byddant hwythau yn cysylltu â'ch cyfieithwyr chi wedi i'r clustffonau cyntaf adael y Ddesg Ymholiadau yn y bore, ac wedi i'r rhai olaf ddychwelyd ar ddiwedd y dydd. Bydd hyn hefyd yn digwydd gyda'r nos.

Amserlen Cyfieithu
Dyma amserlen fras cyfieithu o'r Eisteddfod, yn cynnwys prif ddigwyddiadau'r dydd.
*Sylwer – gall trefn ac amseroedd newid erbyn yr Eisteddfod.

Pafiliwn

Dyddiad	Amser	Digwyddiad
Nos Sul 28 Mai	19:00	Cyngerdd Agoriadol
Dydd Llun 29 Mai	10:30	Seremoni Agoriadol
	10:40	Seremoni Celf
	11:00	Dechrau'r Cystadlu
	16:00	Prif Seremoni'r Dydd
	17:15	Cyflwyno Gwobrau'r Adran Gwaith Cartref
	18:30	Cystadleuaeth Cân Actol
	21:30	Diwedd y Cystadlu
Dydd Mawrth 30 Mai	08:00	Dechrau'r Cystadlu
	16:00	Prif Seremoni'r Dydd

	16:40	Cyhoeddi Bardd Plant Cymru
	17:15	Diwedd y Cystadlu
Dydd Mercher 31 Mai	08:00	Cystadleuaeth Cân Actol
	14:00	Neges Heddwch ac Ewyllys Da
	16:00	Prif Seremoni'r Dydd
	17:30	Diwedd y Cystadlu
Dydd Iau 1 Meh	11:00	Dechrau'r Cystadlu
	14:10	Cyflwyno Gwobrau Ti na n-Og
	16:00	Prif Seremoni'r Dydd
	18:45	Seremoni Cyflwyno medal John a Ceridwen
	21:00	Diwedd y Cystadlu
Dydd Gwener 2 Meh	10:00	Dechrau'r Cystadlu
	11:45	Cyflwyno Tlws y Telynor mwyaf addawol
	15:00	Cyflwyno Ysgoloriaeth i'r unawdydd cerddorol gorau
	16:00	Prif Seremoni'r Dydd
	17:30	Cyflwyniad i groesawu'r Eisteddfod 2018
	17:40	Cyflwyno Gwobrau'r Adran Gwaith Cartref
	18:30	Cystadleuaeth Cerddorfa / Band
	21:30	Diwedd y Cystadlu
Dydd Sadwrn 3 Meh	10:30	Pasiant Meithrin
	11:00	Dechrau'r Cystadlu
	20:30	Trosglwyddo'r awenau i Eisteddfod 2018
	20:40	Cyhoeddi enillydd Ysgoloriaeth yr Eisteddfod
	21:00	Diwedd y Cystadlu

Annedd Wen

Dyddiad	Amser	Digwyddiad
Dydd Sul 28 Mai	17:00	Cyfweld cyngerdd
Dydd Llun 29 Mai	10:00	Cynhadledd i'r Wasg
	13:30	Derbyniad
	16:15	Cynhadledd i'r Wasg
Dydd Mawrth 30 Mai	10:00	Cynhadledd i'r Wasg
	16:15	Cynhadledd i'r Wasg
Dydd Mercher 31 Mai	10:00	Cynhadledd i'r Wasg
	16:15	Cynhadledd i'r Wasg

Dydd Iau 1 Meh	10:00	Cynhadledd i'r Wasg
	16:15	Cynhadledd i'r Wasg
Dydd Gwener 2 Meh	10:00	Cynhadledd i'r Wasg
	16:15	Cynhadledd i'r Wasg
Dydd Sadwrn 3 Meh	10:00	Cynhadledd i'r Wasg
	13:30	Derbyniad yr Urdd

Digwyddiadau mewn Lleoliadau eraill ar draws y Maes

Dyddiad	Amser	Lleoliad
Dydd Llun 29Mai	10:30	Agoriad Swyddogol GwyddonLe
	11:00	Agoriad Swyddogol Celf Dylunio a Thechnoleg
	12:00	Agoriad Swyddogol y Cwtsh

O ganlyniad i natur yr ŵyl gall yr amseroedd yma amrywio ond byddaf yn ddiolchgar petaech yn llunio eich cais ar yr amseroedd a nodwyd. Byddwn yn cadarnhau'r amserlen derfynol rai wythnosau ymlaen llaw.

Gwasanaeth Corfforaethol
Ar gyfer y gwasanaeth corfforaethol yn yr Annedd Wen a lleoliadau amrywiol eraill o gwmpas y Maes, bydd angen un set o glustffonau ychwanegol.

Bydd derbyniadau'r noddwyr yn para am gyfnod o 15 munud, a bydd cynadleddau'r wasg yn para dim hwy nag awr.

Yn y digwyddiadau corfforaethol, y cyfieithydd ei hun sy'n gyfrifol am osod a datgysylltu'r offer a chasglu clustffonau, a'r cyfieithydd ei hun sy'n gyfrifol am wefru'r clustffonau dros nos.

Yn achlysurol, bydd cwmnïau ac asiantaethau eraill yn dymuno cynnal digwyddiadau neu dderbyniadau ar faes yr Eisteddfod. Os byddant yn cysylltu â ni yn gofyn am wasanaeth cyfieithu, byddwn yn cynnig enw eich cwmni chi iddynt. Bydd croeso i chi godi pris masnachol arnynt am unrhyw wasanaeth y byddwch yn ei ddarparu. Fodd bynnag, disgwylir i waith swyddogol yr Eisteddfod gael blaenoriaeth, ac nad yw darparu gwasanaeth cyfieithu i unrhyw un arall yn effeithio ar y gwaith hwnnw.

Nodwch fod y cystadlu o'r pafiliwn a'r digwyddiadau corfforaethol yn cydredeg ac felly fod angen o leiaf dau gyfieithydd er mwyn cyflawni'r ddarpariaeth.

Gosod yr Offer
Bydd yn rhaid i'r Cwmni Cyfieithu osod unrhyw offer sydd yn cael ei osod ar y rigiau goleuo yn ystod y bythefnos cyn yr Eisteddfod. Cadarnheir y dyddiad hwnnw rhwng y Cwmni Cyfieithu ac Adran yr Eisteddfod. Mae'r dyddiad hwn yn ddibynnol ar amserlen goleuo a gosod y pafiliwn.

Bydd gofyn i osod gweddill yr offer yn y Pafiliwn erbyn **27 Mai 2017**, wedi derbyn caniatâd Rheolwr y Maes i gael mynediad i'r Pafiliwn. Cadarnheir amser ar gyfer gosod yr offer rai dyddiau ymlaen llaw, a cheisir cadw at yr amserlen hon. Fodd bynnag Rheolwr y Maes fydd â'r gair terfynol yn ddibynnol ar flaenoriaethau technegol yr Eisteddfod.

Disgwylir i'r sawl sy'n gosod yr offer ar ran y cwmni cyfieithu i fod yn gyfarwydd â'r offer, ac yn gwybod sut i gysylltu gwahanol gyfarpar â'i gilydd. Ni ellir sicrhau y bydd unrhyw gymorth technegol ar gael.

Dylid cofio y bydd gwaith paratoi yn mynd yn ei flaen yn y Pafiliwn, ac y bydd amodau Iechyd a Diogelwch mewn grym.

Rhaid tynnu'r offer o'r Pafiliwn ar ddiwedd y cystadlu ar nos **Sadwrn 3 Mehefin 2017**.

Mynediad i'r Maes
Gofynnir am luniau ar ffurf jpeg o'r cyfieithwyr, a byddant yn derbyn cerdyn adnabod a fydd yn sicrhau mynediad i'r maes a mynediad didramgwydd i gefn y pafiliwn trwy gydol yr wythnos.

Seremonïau ac Areithiau
Byddwn yn gwneud pob ymdrech i gyflenwi unrhyw areithiau / gwybodaeth o'r llwyfan / beirniadaethau'r prif seremonïau ymlaen llaw os ydynt ar gael.
Bydd cynnwys cyfrinachol megis seremonïau yn cael eu darparu rhai oriau'n unig ymlaen llaw, a disgwylir i'r cyfieithwyr barchu'r cyfrinachedd yma.

Systemau Gwybodaeth
Lleolir y bwth cyfieithu wrth ochr y llwyfan yn y Pafiliwn. Darperir rhaglen gyfrifiadurol ar eich cyfer a fydd yn rhestri'r wybodaeth berthnasol am bob cystadleuydd. Dyma'r wybodaeth y bydd yr Urdd a'r cyfryngau hefyd yn ei ddefnyddio.

Darperir hefyd gyswllt â'r rhwydwaith fel y gellir derbyn ac anfon e-byst o'r bwth cyfieithu os byddwch yn dymuno gwneud hynny, ond rhaid sicrhau fod rhaglen wrth-firws gyfredol ar eich cyfrifiaduron glin. Cedwir yr hawl i archwilio eich peiriannau cyn eu cysylltu â'r rhwydwaith i wirio fod rhaglen wrth firws cyfredol i'w chael.

Bydd staff Technoleg Gwybodaeth yr Urdd yn dangos sut i ddefnyddio'r system wybodaeth i chi, ac yn rhoi cymorth i gysylltu â'r rhwydwaith.

Rhifau Ffôn
Bydd disgwyl i'r cwmni cyfieithu ddarparu rhestr o rifau ffôn perthnasol i'r trefnydd rai wythnosau cyn yr Eisteddfod, a bydd rhestr gyflawn o rifau ffôn perthnasol staff yr Urdd a'r cwmni cyfieithu yn cael eu dosbarthu i aelodau staff perthnasol, i'r Ganolfan Groeso ac i'r bwth cyfieithu erbyn diwrnod cyntaf yr Eisteddfod.

Cyhoeddiadau
Byddwn yn darparu dau gopi o Raglen Swyddogol yr Eisteddfod a Rhestr Testunau'r Eisteddfod.

Arwyddion
Bydd arwyddion yn cyfeirio'r ymwelwyr at y gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn cael eu gosod wrth y Brif Fynedfa ac yn y Ganolfan Groeso, yn ogystal ag yn y Rhaglen Swyddogol. Os oes gennych unrhyw arwyddion neu 'pop-ups' y medrwn eu defnyddio, nodwch hwn yn eich cais os gwelwch yn dda.

Cyflwyno Tendr
Gofynnwn yn garedig i chi am ddyfynbris ar gyfer y flwyddyn 2017 yn seiliedig ar y wybodaeth a amlinellir yn y tudalennau blaenorol.
Yn ddymunol, dylai'r tendr nodi gwahanol elfennau o dan benawdau, a dylid llenwi a dychwelyd y ffurflen grynhoi yn ogystal.
Gan mai elusen yw Urdd Gobaith Cymru, byddwn yn ystyried cynnig buddiannau i gwmni llwyddiannus a fyddai'n barod i gynnig pris gostyngol. Cysylltwch am raddfa yn nodi'r gwahanol fuddiannau a'u gwerth mewn da.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Branwen Williams:
01678 541 017 / branwenhaf@urdd.org

Dychweler erbyn **24 Chwefror 2017** at branwenhaf@urdd.org

Cadeirydd: **Tudur Dylan Jones**
Prif Weithredwr: **Sioned Hughes**

Cwmni Urdd Gobaith Cymru, Rhif Cwmni: 263310,
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru,
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

Enw Cofrestredig y Cwmni	
Cyfeiriad Busnes	
Enw Prif Gyswllt	
Cyfeiriad	
Ffôn	
Ffôn Symudol	
E-bost	
Cynnig ar gyfer y flwyddyn 2017 (heb gynnwys TAW)	£
Unrhyw ostyngiad er mwyn derbyn buddiannau nawdd (gwerth)	£
Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (Gwerth)	£
Nodwch yn fyr unrhyw brofiad sydd gan eich cwmni o ddarparu gwasanaeth cyfieithu cyffelyb.	
Nifer o gyfieithwyr a ddarperir bob dydd	
Asesiad Risg	Dylid atodi asesiad risg ar gyfer digwyddiad o'r fath.

Dychweler y ffurflen hon ynghyd â mantolen o dan benawdau erbyn **24 Chwefror 2017** at branwenhaf@urdd.org.